



Chartered
Institute of
Housing
Awarding
organisation

Tystysgrif Lefel 3 CIH mewn Ymarfer Tai

Sefydliad Dyfarnu – CIH

Cyflwyniad

Y Sefydliad Tai Siartredig (CIH) yw'r llais annibynnol dros dai, a chartref safonau proffesiynol. Mae ein nod yn syml – darparu'r cyngor, y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol ym maes tai, a'u sefydliadau, i fod yn wych. Mae CIH yn elusen gofrestredig ac yn sefydliad nid-er-elw. Mae hyn yn golygu bod yr arian rydym yn ei wneud yn cael ei roi'n ôl i mewn i'r sefydliad ac yn ariannu'r gweithgareddau rydym yn eu cyflawni i gefnogi'r sector tai. Mae gennym aelodaeth amrywiol o bobl sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, a hynny mewn 20 o wledydd ar bum cyfandir ar draws y byd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.cih.org.

CIH yw'r sefydliad dyfarnu ar gyfer cymwysterau tai ac rydym wedi ymrwmo i ddarparu cymwysterau perthnasol a chyfoes o'r safon uchaf i bawb ym maes tai.

Pwrpas manyleb y cymhwyster yw rhoi gwybodaeth i'r ganolfan am yr unedau sy'n rhan o'r cymhwyster hwn, y gofynion sicrhau ansawdd a'r dulliau asesu sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster, yn ogystal â strwythur y cymhwyster.

Cyfeirnod y cymhwyster yw 603/1113/7.
Y dyddiad cychwyn gweithredol yw 12 Chwefror 2017.
Cod cynllun CIH yw 3H14.

Cysylltu â ni:

Ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â manyleb y cymhwyster, anfonwch e-bost i awarding.organisation@cih.org

Y cymhwyster

Mae'r cymhwyster yn gymhwyster galwedigaethol lefel 3 ar gyfer y sector tai, sy'n cael ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual) a Cymwysterau Cymru.

Amcan y cymhwyster hwn yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth dechnegol i unigolion ar draws ystod eang o arferion tai rheng flaen ar lefel weithredol. Mae'r cymhwyster yn archwilio meysydd tai cyffredinol ac arbenigol, ynghyd â pholisi a chyfraith tai. Rhaid i bob dysgwr astudio moeseg ac ymarfer proffesiynol sy'n cefnogi datblygiad eu twf personol eu hunain, a'u hymgysylltiad â dysgu a maes tai.

Nod y cymhwyster yw...

- Darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol ar y rheng flaen yn y sector tai.
- Paratoi dysgwyr ar gyfer astudiaeth bellach ar lefel 3 a chamu ymlaen i gymwysterau ar lefel 4.

Mae'r cymhwyster yn addas i ddysgwyr...

- sy'n gweithio ar y rheng flaen mewn ystod eang o rolau ym maes tai a rolau sy'n ymwneud â maes tai
- sydd eisoes â chymhwyster lefel 2 a/neu brofiad o weithio ym maes tai.

Gofynion mynediad

Nid yw CIH fel sefydliad dyfarnu (CIH AO) yn pennu gofynion mynediad. Mae CIH AO yn argymhell y bydd y dysgwr, er mwyn cyflawni'r cymhwyster:

- yn meddu ar y potensial a'r cyfleoedd i ennill y cymhwyster
- yn gweithio ym maes tai neu ddiwydiant sy'n gysylltiedig â thai
- wedi cwblhau Tystysgrif Lefel 2 CIH mewn Ymarfer Tai neu gymhwyster cyfatebol/cyferwerth.

Mae rhagor o fanylion am y lefel y mae angen i'r dysgwr allu ei chyrraedd ar gael yn yr adran ar ddisgrifyddion lefel 3.

Llwybrau cynnydd

Efallai y bydd y dysgwr yn dymuno camu ymlaen i ddysgu pellach:

- drwy ddefnyddio'r credyd a enillwyd yn Nhystysgrif Lefel 3 CIH mewn Ymarfer Tai, i ehangu ei wybodaeth am faes tai drwy gwblhau Diploma Lefel 3 CIH mewn Ymarfer Tai.
- ar lefel 4 – os oes gan y dysgwr brofiad helaeth ym maes tai neu brofiad goruchwylio/rheoli ac wedi astudio ar lefel 3 neu 4 yn flaenorol, efallai y bydd yn gallu camu ymlaen i Dystysgrif Lefel 4 CIH mewn Tai.

Ymarferydd ardystiedig

Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus yn gymwys i gael aelodaeth 'ymarferydd ardystiedig' o CIH.

Disgrifyddion Lefel 3

Mae'r disgrifyddion lefel 3 yn dangos y lefel y mae'n rhaid i ddysgwyr fod yn gweithio arni er mwyn ennill y cymhwyster. Ni ddylid eu defnyddio fel meini prawf marcio, ond gellir eu defnyddio fel offeryn asesu cychwynol i bennu lefel y dysgwyr.

Disgrifydd gwybodaeth (mae'r deiliad...)	Disgrifydd sgiliau (mae'r deiliad yn gallu...)
<p>Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o ffeithiau, gweithdrefnau a damcaniaethau mewn pwnc neu faes gwaith i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, yn gallu bod yn gymhleth neu'n anarferol.</p> <p>Yn gallu dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol.</p> <p>Yn ymwybodol o natur y maes astudio neu'r maes gwaith.</p> <p>Yn ymwybodol o wahanol safbwyntiau neu ddulliau gweithredu yn y maes astudio neu'r maes gwaith.</p>	<p>Nodi, dewis a defnyddio sgiliau, dulliau a gweithdrefnau gwybyddol ac ymarferol priodol i fynd i'r afael â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, yn gallu bod yn gymhleth ac yn anarferol.</p> <p>Cynnal ymchwil briodol fel sail i ffyrdd o weithredu.</p> <p>Adolygu pa mor effeithiol y mae dulliau a ffyrdd o weithredu wedi bod.</p>

I gael cymhariaeth o lefelau cymwysterau ar draws y DU, gweler <https://scqf.org.uk/wp-content/uploads/2024/08/qualifications-can-cross-boundaries-aug-23.pdf>

Mae'r cymhwyster hwn ar lefel 4 y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd. I gael rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd, ewch i https://ec.europa.eu/ploteus/search/site?f%5B0%5D=im_field_entity_type%3A97

Prentisiaeth

Mae'r unedau o'r cymhwyster wedi cael eu cyfeirio at y Safon Prentisiaeth: Rheoli Tai ac Eiddo, Lloegr. Gweler Atodiad 1.

Strwythur y cymhwyster

Teitl y cymhwyster: Tystysgrif Lefel 3 CIH mewn Ymarfer Tai

Rhaid i ddysgwyr gyflawni o leiaf 26 credyd er mwyn ennill y cymhwyster, a hynny o 2 uned orfodol a 6 uned ddewisol. Rhaid i CIH AO gymeradwyo'r cyfuniad o unedau dewisol y mae canolfan yn eu rhoi at ei gilydd mewn cwrs cyn gellir dechrau darparu.

170 awr yw'r oriau dysgu dan arweiniad sy'n cael eu hargymell ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae CIH AO yn disgwyl y gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster mewn mwy neu lai o amser yn unol â'u cynllun y mae CIH AO wedi'i gymeradwyo cyn dechrau'r cwrs. Gellir cyflwyno'r unedau mewn unrhyw drefn. Disgwylir mai 260 awr fydd cyfanswm yr oriau cymhwysu.

Mae hefyd yn bosibl dilyn y llwybrau canlynol:

- Rheoli gwasanaethau tai

Dyfernir y cymhwyster ar sail Pasio / Cyfeirio / Methu.

**Mae'r cymhwyster yn cynnwys y 2 uned orfodol ganlynol,
Rhaid cyflawni 8 credyd o'r grŵp hwn:**

Teitl yr uned	Credydau	Lefel	Tudalen
Y system dai Rhif yr uned D/615/2073	4	3	15
Sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai Rhif yr uned J/615/0849	4	3	16

**Mae'r cymhwyster yn cynnwys yr unedau dewisol canlynol,
Rhaid cyflawni o leiaf 18 credyd o'r grŵp hwn:**

Cyfuniadau wedi'u gwahardd.

- Ni chaiff dysgwr gyflawni'r unedau Gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw tai ac Atgyweirio a chynnal a chadw mewn sefydliadau tai er mwyn ennill eu cymhwyster, oherwydd cymaint o orgyffwrdd sydd.
- Ni chaiff dysgwr gyflawni'r unedau Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai a Safonau gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer cynnal a chadw tai er mwyn ennill eu cymhwyster, oherwydd cymaint o orgyffwrdd sydd.

Teitl yr uned	Credydau	Lefel	Tudalen
Tai hygyrch ac addasadwy Rhif yr uned H/615/3998	3	3	17
Delio â galwadau ar gyfer gweithredwyr gwasanaethau teleofal Rhif yr uned F/615/5094	3	3	18
Cydlyniant cymunedol Rhif yr uned R/615/5102	3	3	19
Datblygu cymunedol Rhif yr uned D/615/1991	3	3	20
Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai Rhif yr uned A/615/1996	3	3	21
Safonau gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer cynnal a chadw tai Rhif yr uned L/615/4000	3	3	22
Delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym maes tai Rhif yr uned F/615/1997	3	3	23
Darparu gwasanaethau tai Rhif yr uned J/615/1998	4	3	24
Cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai Rhif yr uned A/615/4073	4	3	25
Trin data cwsmeriaid teleofal yn ddiogel Rhif yr uned Y/615/5103	3	3	26
Ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch ar gyfer rheoli a chynnal a chadw tai Rhif yr uned F/615/4074	5	3	27
Digartrefedd ymysg cyn-droseddwyr Rhif yr uned R/615/0854	3	3	29

Teitl yr uned	Credydau	Lefel	Tudalen
Gwasanaethau digartrefedd ac atal digartrefedd Rhif yr uned H/615/0809	4	3	30
Adeiladu a chynnal a chadw tai Rhif yr uned J/615/4075	5	3	31
Polisi tai Rhif yr uned H/615/5105	3	3	32
Gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw tai Rhif yr uned L/615/1999	3	3	33
Gwasanaethau cymorth tai i bobl ifanc Rhif yr uned D/615/5104	3	3	34
Byw'n annibynnol ar gyfer pobl hŷn Rhif yr uned K/615/5106	4	3	35
Cyflwyno lles cymdeithasol Rhif yr uned M/615/5107	3	3	36
Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau tai Rhif yr uned H/615/0812	3	3	37
Rheoli eiddo gwag Rhif yr uned L/615/4076	3	3	38
Rheoli gwasanaethau tai lesddaliadol Rhif yr uned M/615/2000	3	3	39
Deiliadaeth a gosod eiddo Rhif yr uned L/615/2005	3	3	40
Teilwra a darparu cymorth ar gyfer byw'n annibynnol Rhif yr uned T/615/5108	3	3	41
Cynllunio cymorth ar gyfer byw'n annibynnol Rhif yr uned A/615/5109	3	3	42
Darparu gwasanaethau teleofal Rhif yr uned T/615/5111	3	3	43
Adfywio Rhif yr uned T/615/2015	3	3	44
Rheoli incwm rhent Rhif yr uned D/615/2008	3	3	45
Atgyweirio a chynnal a chadw mewn sefydliadau tai Rhif yr uned R/615/4077	3	3	46

Teitl yr uned	Credydau	Lefel	Tudalen
Rôl y gweithiwr cymorth ar gyfer byw'n annibynnol Rhif yr uned F/615/0851	3	3	47
Diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth Rhif yr uned D/615/5121	3	3	58
Cymunedau cynaliadwy Rhif yr uned H/615/5122	3	3	49
Cyd-destun darparu gwasanaethau teleofal Rhif yr uned L/615/5129	3	3	50
Y fframwaith ar gyfer gwybodaeth a chyngor am dai Rhif yr uned F/615/5130	3	3	51
Effaith cyflwr tai ar iechyd Rhif yr uned J/615/5131	3	3	52
Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer tai Rhif yr uned L/615/5132	3	3	53
Cyd-destun cymdeithasol tai Rhif yr uned M/615/2076	3	3	54
Gweithio gyda chymdogaethau Rhif yr uned F/615/2003	3	3	55

Llwybr – Tystysgrif lefel 3 CIH mewn ymarfer tai (Rheoli gwasanaethau tai)

Er mwyn cyflawni'r llwybr Rheoli gwasanaethau tai, rhaid i ddysgwyr ddilyn yr unedau gorfodol canlynol a chyflawni 8 credyd arall o'r rhestr unedau dewisol ar dudalennau 6-9:

Teitl yr uned	Credydau	Lefel	Tudalen
Y system dai Rhif yr uned D/615/2073	4	3	15
Sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai Rhif yr uned J/615/0849	4	3	16
Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau tai Rhif yr uned H/615/0812	3	3	37
Deiliadaeth a gosod eiddo Rhif yr uned L/615/2005	3	3	40
Darparu gwasanaethau tai	4	3	24

Rhif yr uned J/615/1998

Darparu'r cymhwyster

Cymeradwyaeth i ddarparu'r cymhwyster

A chithau'n ganolfan sydd wedi'i chymeradwyo gan CIH AO, RHAID i chi fod wedi eich cymeradwyo gan CIH AO i ddarparu'r cymhwyster cyfan. Ni chewch dechrau darparu ac ni fydd cofrestriadau dysgwyr yn cael eu derbyn nes bydd y broses hon wedi'i chwblhau.

Cofrestru dysgwyr a ffioedd

Cyn darparu'r cymhwyster, RHAID i chi gofrestru pob dysgwr gyda CIH AO. Mae ffi'n daladwy ar gyfer pob dysgwr. Cyfrifoldeb y ganolfan yw talu'r ffioedd hyn a byddwch yn cael anfoneb am y swm gofynnol ar ôl i ni gael y ffurflenni cofrestru. Mae'r rhestr ffioedd ar gael ar ein gwefan drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://www.cih.org/education/qualifications/deliver-our-qualifications/>

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Cafodd ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu gwneud wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn i hybu mynediad ac i leihau rhagfarn. Cyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu gwneud fel rhan o'r gwaith o ddarparu ac asesu'r cymhwyster hwn.

Byddai CIH AO yn disgwyl i gydraddoldeb ac amrywiaeth gael eu hintegreiddio yn y broses ddarparu ar gyfer pob canlyniad dysgu, hyd yn oed lle nad oes meini prawf asesu penodol ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rhoi canlyniadau dysgu a meini prawf asesu mewn cyd-destun

Mae CIH AO yn disgwyl i ganolfannau roi'r gwaith o ddarparu ac asesu unedau mewn cyd-destun yn unol ag amgylchiadau lleol a sectoraidd y grŵp dysgwyr maen nhw'n darparu ar eu cyfer. Er enghraifft, byddai cwestiwn sy'n ymwneud â'r gyfraith yn cael ei gymhwyso i gyfraith y wlad lle mae'r grŵp dysgwyr yn gweithredu.

Gofynion o ran cymhwysedd galwedigaethol staff

Profiad o'r canlynol:

- Gweithio yn y diwydiant tai, ar lefel rheoli yn ddelfrydol.
- Gweithio yn y diwydiant penodol y mae cynnwys yr uned (lle mae hwn yn faes tai arbenigol neu bwnc nad yw'n benodol i faes tai) yn rhoi sylw iddo.
- Darparu cymwysterau galwedigaethol.
- Addysgu, asesu neu ddilysu fel y bo'n briodol.

Cymwysterau

- Cymhwyster tai ar lefel sy'n uwch na lefel y cymhwyster/unedau sydd i'w darparu.
A/neu
- Gradd neu gymhwyster ar lefel gradd mewn maes cytras a/neu gymhwyster proffesiynol perthnasol.

Gofynion cymhwyso penodol i'r rôl:

- **Athrawon/Tiwtoriaid:**

Cymhwyster addysgu rheoledig neu gyfatebol.

- **Bydd angen i Aseswyr:**

Mae asesu yn weithgaredd y gellir ei gyflawni gan unigolyn penodol neu fel rhan o rôl ehangach unigolyn, e.e. Goruchwyliwr, rheolwr, tiwtor. Rhaid i bob asesydd feddu ar gymhwyster asesu, e.e. Dyfarniadau Asesydd, Dyfarniadau/unedau A1/2, D32/33) neu fod yn gweithio tuag at hyn.

- **Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol:**

Mae sicrhau ansawdd mewnol yn weithgaredd y gellir ei gyflawni gan unigolyn penodol neu fel rhan o rôl ehangach unigolyn. Rhaid i bob Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol feddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol, e.e. Dyfarniadau Sicrhau Ansawdd Mewnol, Dyfarniad/unedau V1, D34) neu fod yn gweithio tuag at hyn.

Mae rhestr o gymwysterau cyfredol ar gael ar y cofrestrau canlynol:

- Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon: <http://register.ofqual.gov.uk>
- Yr Alban: <https://www.sqa.org.uk/sqa/64775.html>

Rhaid i Aseswyr a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol dan Hyfforddiant ennill cymhwyster Asesydd/Sicrhau Ansawdd Mewnol perthnasol o fewn blwyddyn i ddechrau yn y rôl. Rhaid i'r holl staff heb gymhwyso sy'n asesu gael 100% o'u gwaith wedi'i ddilysu gan asesydd sydd wedi cymhwyso.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus mewn addysgu, asesu, dilysu a'r diwydiant tai.

Asesu

Rhaid i ganolfannau gyfeirio at lawlyfr Asesu AO CIH cyn datblygu eu cyrsiau a'u hasesiadau cysylltiedig.

Pwrpas asesu yw gwneud dyfarniad cyson a dilys bod dysgwyr wedi cyrraedd y safon sy'n ofynnol i ennill y cymhwyster. Mae'r meini prawf asesu ym mhob uned yn dangos y dystiolaeth y bydd angen i ddysgwyr ei chynhyrchu er mwyn dangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu.

Mae'r holl asesiadau ar gyfer y cymhwyster yn cael eu llunio gan y ganolfan, eu marcio gan y ganolfan ac yna mae'n rhaid sicrhau eu hansawdd yn fewnol (gan y ganolfan), a'u cymedrolï'n allanol (gan CIH AO).

Egwyddorion asesu

Wrth lunio a darparu asesiadau, rhaid dilyn yr egwyddorion canlynol:

- Dilysrwydd – Mae asesiad yn ddilys os yw'n glir ac yn ddiamwys, 'yn gwneud beth mae'n ei ddweud ar y tun'; os yw'n ateb y gofyn a bod canlyniadau'r asesiad yn bodloni eu dibenion arfaethedig.

- Dibynadwyedd – Mae asesiad yn ddibynadwy os nad yw siawns yn dylanwadu ar ei ganlyniadau, a bod y broses asesu'n cynhyrchu canlyniadau a fyddai'n cael eu hatgynhyrchu pe bai'r asesiad yn cael ei ailadrodd.
- Cymaroldeb – Canlyniadau asesu y gellir eu cymharu mewn safon rhwng asesiadau mewn cymhwyster, rhwng cymwysterau tebyg, gyda sefydliadau dyfarnu eraill, a dros amser.
- Gallu i reoli – Mae'r asesiad yn hawdd ei reoli ac mae'r broses reoli'n un sy'n gosod gofynion rhesymol ar ganolfannau a dysgwyr. Bydd rhesymoldeb yn seiliedig ar raddfa'r broses asesu wedi'i chydbwysu gan ddefnyddioldeb y canlyniadau.
- Lleihau rhagfarn – sy'n ymwneud â sicrhau nad yw asesiad yn cynhyrchu canlyniadau afresymol o niweidiol i ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd gyffredin (ac) sy'n ymwneud â thegwch i bob dysgwr, a dyletswyddau cydraddoldeb statudol.

Asesiadau a luniwyd gan y ganolfan

Agwedd CIH AO at asesu cymwysterau yw galluogi canolfannau i lunio'r asesiadau. Gwneir hyn er mwyn cael asesiad priodol sy'n adlewyrchu profiad dysgu unigryw ac amgylchiadau lleol grwpiau dysgwr penodol.

Disgwylir i ganolfannau greu strategaethau asesu sy'n diwallu anghenion eu grwpiau dysgwyr yn uniongyrchol ac sy'n ystyried gofynion cyflogwyr lleol.

Dulliau Asesu

Caniateir y dulliau asesu canlynol ar gyfer asesu'r cymhwyster:

- Gwaith cwrs
- Portffolio tystiolaeth
- E-asesu
- Aseiniad/arddangosiad ymarferol

Ystyriaethau arbennig ac addasiadau rhesymol

Mae CIH AO yn mynnu bod canolfannau'n cydymffurfio â pholisi ystyriaethau arbennig ac addasiadau rhesymol CIH.

Mae addasiad rhesymol yn golygu unrhyw gam gweithredu sy'n helpu i leihau effaith anableded neu anhawster sy'n rhoi'r dysgwr dan anfantais sylweddol yn y sefyllfa asesu. Ni ddylai addasiadau rhesymol effeithio ar ddibynadwyedd a dilysrwydd y canlyniadau asesu. Mae'n rhaid i'r ganolfan roi'r addasiadau i'r asesiad ar waith a rhoi gwybod i CIH AO am hyn.

Gellir rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwr yn dilyn asesiad wedi'i drefnu, er enghraifft;

- Mae'r dysgwr yn bresennol ar gyfer yr asesiad ond gallai fod wedi bod o dan anfantais oherwydd salwch, anaf neu amgylchiadau anffafriol dros dro a gododd yn ystod neu'n agos at adeg asesiad.
- Mae'r dysgwr yn colli rhan o'r asesiad o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

Os yw'r ganolfan yn cymeradwyo/gwrthod ystyriaeth arbennig (fel addasiad asesiad bach i farc y dysgwr ar ôl asesiad, neu addasiad i ddyddiad cyflwyno asesiad), rhaid iddi gadw tystiolaeth o'i phenderfyniad er mwyn i'r cymedrolwr allanol graffu arni.

Sicrhau ansawdd allanol

Mae'r system sicrhau ansawdd allanol yn nodwedd allweddol o'r trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer CIH AO. Mae'r Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol a'r cymedrolwyr yn chwarae rôl hollbwysig yn sicrhau bod pob unigolyn sy'n meddu ar dystysgrif cymhwyster CIH AO wedi cyrraedd safon sy'n cael ei derbyn yn genedlaethol. Rhaid i'r cymedrolwr sicrhau bod digon o dystiolaeth ar gael i ddangos bod yr egwyddorion sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal.

Bydd CIH AO yn penodi Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol a chymedrolwr ar gyfer pob canolfan gymeradwy i fonitro'r gwaith sicrhau ansawdd yn y ganolfan. Ni ddylid dechrau darparu'r cymhwyster nes bod y strategaeth asesu a'r briff(iau) asesu wedi cael eu cymeradwyo gan CIH AO. Yn ystod y cwrs, bydd y cymedrolwr yn asesu sampl o'r asesiadau a bydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn cynnal ymweliad adolygu ansawdd bob blwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth am sicrhau ansawdd, edrychwch ar lawlyfr y ganolfan a'r polisi sancsiynau.

Dogfennau perthnasol eraill

Dyma restr o ddogfennau eraill y mae'n rhaid i'ch canolfan fod yn gyfarwydd â nhw mewn perthynas â dylunio, darparu, asesu a sicrhau ansawdd cymhwyster CIH AO.

- Gweithdrefn apelio
- Llawlyfr asesu
- Cytundeb Canolfan
- Llawlyfr canolfan
- Polisi cwynion
- Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau
- Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Polisi camymarfer
- Marchnata cymwysterau CIH
- Polisi cadw cofnodion
- Polisi sancsiynau
- Polisi ystyriaethau arbennig ac addasiadau rhesymol
- Polisi cydnabod dysgu blaenorol
- Ffurflen gais ar gyfer cymeradwyo/hysbysu newid cwrs canolfan

Mae rhagor o wybodaeth a dogfennau ar gael ar safle Parnassus CIH i Ganolfannau.

Y system dai

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 4
Cyfeirnod yr uned: D/615/2073
Cyfeirnod CIH AO: H3021
Statws yr uned: Gorfodol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw darparu dealltwriaeth o farchnadoedd tai a'r ffactorau sy'n gallu dylanwadu arnynt.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Gwybod am y gwahanol ffyrdd y mae unigolion yn ymuno â'r farchnad dai.	1.1 Crynhoi'r ffyrdd y mae unigolion yn ymuno â'r farchnad dai. 1.2 Trafod y cyfleoedd a'r rhwystrau o ran unigolion yn ymuno â'r farchnad dai.
2. Deall rôl y prif ddarparwyr tai.	2.1 Nodi'r prif ddarparwyr tai. 2.2 Disgrifio rôl pob grŵp o ddarparwyr tai yn y farchnad dai.
3. Deall nodweddion y farchnad dai.	3.1 Disgrifio'r berthynas rhwng y cyflenwad a'r galw am dai. 3.2 Nodi ffactorau sy'n dylanwadu ar y cyflenwad a'r galw am dai.
4. Deall sut mae llywodraeth yn ymyrryd yn y system dai.	4.1 Amlinellu'r ffyrdd y mae llywodraeth genedlaethol yn ymyrryd yn y system dai.

Sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 4
Cyfeirnod yr uned: J/615/0849
Cyfeirnod CIH AO: H3008
Statws yr uned: Gorfodol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw cyflenwi dysgwyr â'r sgiliau proffesiynol sydd eu hangen i ymarfer ym maes tai.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau allweddol sydd eu hangen ar weithiwr proffesiynol ym maes tai.	1.1 Gwerthuso amrywiaeth o sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau allweddol sydd eu hangen ar weithiwr proffesiynol ym maes tai.
2. Deall moeseg yng nghyd-destun ymarfer proffesiynol ym maes tai.	2.1 Esbonio beth mae 'proffesiynoldeb' yn ei olygu mewn cyd-destun tai. 2.2 Esbonio rôl moeseg mewn ymarfer tai. 2.3 Disgrifio sut rydych yn defnyddio moeseg yn eich ymarfer proffesiynol eich hun.
3. Deall cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yng nghyd-destun ymarfer proffesiynol ym maes tai.	3.1 Esbonio rôl cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn ymarfer tai. 3.2 Disgrifio sut rydych yn defnyddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eich ymarfer proffesiynol eich hun.
4. Gallu asesu eich perfformiad a'ch datblygiad proffesiynol eich hun.	4.1 Myfyrio ar eich sgiliau ymarfer proffesiynol eich hun. 4.2 Trafod rôl adborth o ran gwella perfformiad. 4.3 Datblygu cynllun datblygu proffesiynol i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.

Tai hygyrch ac addasadwy

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 3
Cyfeirnod yr uned: H/615/3998
Cyfeirnod CIH AO: H3023
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r berthynas rhwng tai, hybu annibyniaeth a mynediad ffisegol. Bydd yn edrych ar agweddau sy'n newid at dai hygyrch ac addasadwy, ac yn galluogi dysgwyr i asesu ystod o ddewisiadau tai, gwasanaethau a thechnoleg gynorthwyol.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y cyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol ar gyfer tai hygyrch ac addasadwy.	1.1 Trafod agweddau cymdeithasol a gwleidyddol sy'n newid at ddarparu tai hygyrch ac addasadwy. 1.2 Esbonio sut mae'r cyd-destun polisi cenedlaethol yn effeithio ar ddarparu tai hygyrch ac addasadwy. 1.3 Esbonio rôl y mudiad byw'n annibynnol ac ymgyrchu dros gydraddoldeb o ran datblygu tai hygyrch ac addasadwy.
2. Deall nodweddion tai hygyrch ac addasadwy.	2.1 Crynhoi nodweddion tai hygyrch ac addasadwy. 2.2 Ymchwilio i sut gall y broses datblygu adeiladau newydd gynnig dewisiadau byw'n gynaliadwy i bobl â gwahanol alluoedd. 2.3 Esbonio sut gellir addasu cartrefi sydd eisoes yn bodoli i'w gwneud yn hygyrch i bobl â gwahanol alluoedd.
3. Deall rôl technoleg gynorthwyol o ran cefnogi byw'n annibynnol.	3.1 Archwilio'r amrywiaeth o dechnoleg gynorthwyol sydd ar gael i alluogi pobl i fyw'n annibynnol. 3.2 Esbonio sut gall technoleg gynorthwyol alluogi pobl i fyw'n annibynnol.

Delio â galwadau ar gyfer gweithredwyr gwasanaethau teleofal

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 3
Cyfeirnod yr uned: F/615/5094
Cyfeirnod CIH AO: H3030
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o sgiliau a gweithdrefnau delio â galwadau. Bydd hyn yn cynnwys sut mae ymateb i anghenion amrywiol cwsmeriaid a gweithdrefnau ar gyfer ymateb mewn argyfwng.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Gwybod pa sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau teleofal.	1.1 Disgrifio'r sgiliau sydd eu hangen i ddelio â galwadau ac ymateb i anghenion cwsmeriaid. 1.2 Esbonio sut mae perthynas gefnogol yn cael ei datblygu a'i chynnal gyda chwsmeriaid teleofal.
2. Deall sut mae ymateb i anghenion amrywiol cwsmeriaid teleofal.	2.1 Disgrifio'r amrywiaeth o ymatebion cymorth y gall pobl sy'n delio â galwadau eu rhoi i gwsmeriaid. 2.2 Gwerthuso ymatebion y rhai sy'n delio â galwadau i anghenion cyfathrebu cwsmeriaid teleofal. 2.3 Datblygu strategaethau i ddelio â chwsmeriaid heriol.
3. Deall gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer ymateb i gwsmeriaid teleofal mewn argyfwng.	3.1 Esbonio'r gweithdrefnau ar gyfer blaenoriaethu galwadau teleofal. 3.2 Gwerthuso'r gweithdrefnau ar gyfer ymateb i argyfyngau. 3.3 Esbonio'r trefniadau ar gyfer mynediad brys i eiddo cwsmeriaid.

Cydlyniant cymunedol

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 3
Cyfeirnod yr uned: R/615/5102
Cyfeirnod CIH AO: H3031
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwr o gydlyniant cymunedol yng nghyswllt maes tai.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall beth yw ystyr cydlyniant cymunedol.	1.1 Esbonio gwahanol ddehongliadau o gydlyniant cymunedol. 1.2 Esbonio hyd a lled cydlyniant cymunedol. 1.3 Esbonio'r rhwystrau i gydlyniant cymunedol. 1.4 Crynhoi effaith adroddiadau allweddol ar ddatblygu dealltwriaeth o gydlyniant cymunedol.
2. Deall pwysigrwydd cydlyniant cymunedol i sefydliadau tai.	2.1 Trafod pwysigrwydd cydlyniant cymunedol i sefydliadau a'u staff. 2.2 Esbonio arwyddocâd cydlyniant cymunedol i unigolion a chymunedau.
3. Deall rôl sefydliadau tai o ran cyfrannu at gydlyniant cymunedol.	3.1 Amlinellu rôl sefydliadau tai o ran cyfrannu at gydlyniant cymunedol. 3.2 Gwerthuso mentrau lleol i hybu cydlyniant cymunedol.

Datblygu cymunedol

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 3
Cyfeirnod yr uned: D/615/1991
Cyfeirnod CIH AO: H3011
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwr o ddatblygu cymunedol a nodi'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i hwyluso datblygu cymunedol, a rôl y proffesiwn tai yn hyn o beth.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y materion cyfredol sy'n berthnasol i ddatblygu cymunedol.	1.1 Esbonio'r prif faterion sy'n effeithio ar ddatblygu cymunedol ar lefel leol. 1.2 Esbonio rôl polisïau llywodraeth leol a chenedlaethol mewn datblygu cymunedol.
2. Deall gwahanol ddulliau o ddatblygu cymunedol.	2.1 Esbonio dau ddull o astudio datblygu cymunedol, gan ystyried y rôl mae tai yn ei chwarae. 2.2 Gwerthuso enghreifftiau o ddatblygu cymunedol yn ymarferol.
3. Gwybod pa sgiliau ac adnoddau sydd eu hangen ar gyfer datblygu cymunedol effeithiol.	3.1 Disgrifio adnoddau ar gyfer datblygu cymunedol effeithiol. 3.2 Crynhoi'r ystod o sgiliau sydd eu hangen ar y rhai sy'n gweithio ym maes datblygu cymunedol.

Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 3
Cyfeirnod yr uned: A/615/1996
Cyfeirnod CIH AO: H3012
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwr o rôl gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid mewn cyd-destun tai, sut mae cyfathrebu'n effeithiol â'r cwsmer a sut mae ymateb yn briodol i adborth gan gwsmeriaid.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall rôl gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai.	1.1 Esbonio egwyddorion gwasanaeth i gwsmeriaid mewn cyd-destun tai. 1.2 Gwerthuso manteision gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid i sefydliad tai. 1.3 Nodi'r dulliau a ddefnyddir i ganfod anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid ym maes tai. 1.4 Esbonio sut mae anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid ym maes tai yn effeithio ar y gwaith o ddarparu a datblygu gwasanaethau.
2. Deall sut mae cyfathrebu'n effeithiol â chwsmeriaid ym maes tai.	2.1 Disgrifio dulliau cyfathrebu cyffredin rhwng sefydliad tai a'i gwsmeriaid. 2.2 Gwerthuso dulliau o ddileu neu leihau rhwystrau i gyfathrebu â chwsmeriaid.
3. Deall rôl adborth gan gwsmeriaid ym maes tai.	3.1. Gwerthuso dulliau o gofnodi ac ymateb i adborth cadarnhaol a negyddol gan gwsmeriaid. 3.2. Esbonio manteision adborth gan gwsmeriaid i sefydliadau tai.

Safonau gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer cynnal a chadw tai

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 3
Cyfeirnod yr uned: L/615/4000
Cyfeirnod CIH AO: H3024
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwr o rôl safonau gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid o ran sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw tai.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall sut mae dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu defnyddio i wella gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw tai.	1.1 Disgrifio dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw tai. 1.2 Esbonio sut mae dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu defnyddio i sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw tai.
2. Deall sut mae safonau gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw yn cael eu pennu.	2.1 Trafod nodweddion safonau gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid. 2.2 Archwilio'r cysylltiadau rhwng safonau gwasanaeth i gwsmeriaid, dangosyddion perfformiad allweddol a chyfraddau boddhad cwsmeriaid.
3. Deall sut gellir defnyddio adborth gan gwsmeriaid i wella perfformiad atgyweirio a chynnal a chadw tai.	3.1. Crynhoi dulliau o gasglu adborth gan gwsmeriaid ar berfformiad yn erbyn safonau gwasanaeth. 3.2. Esbonio sut mae adborth yn cael ei ddefnyddio i sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw tai.

Delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym maes tai

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 3
Cyfeirnod yr uned: F/615/1997
Cyfeirnod CIH AO: H3013
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwr o'r ffyrdd y gall landlordiaid a'u partneriaid ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall beth mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei olygu mewn cyd-destun tai.	1.1 Diffinio'r term ymddygiad gwrthgymdeithasol. 1.2 Crynhoi'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. 1.3 Archwilio effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar unigolion neu gymunedau.
2. Deall yr ymyriadau statudol ac anstatudol sydd ar gael i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.	2.1 Amlinellu'r ymyriadau statudol ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. 2.2 Crynhoi'r ymyriadau anstatudol ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. 2.3 Esbonio rôl asiantaethau eraill o ran mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i atal.
3. Deall dulliau o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym maes tai a'i atal.	3.1 Gwerthuso agwedd sefydliadau tai at atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. 3.2 Gwerthuso agwedd sefydliadau tai at fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Darparu gwasanaethau tai

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 4
Cyfeirnod yr uned: J/615/1998
Cyfeirnod CIH AO: H3014
Statws yr uned: Dewisol

Yn orfodol ar gyfer y llwybr Rheoli gwasanaethau tai

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am sefydliadau sy'n darparu tai a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Gwybod am y prif fathau o ddarparwyr tai yn genedlaethol a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.	1.1 Disgrifio'r prif fathau o ddarparwyr tai. 1.2 Amlinellu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr tai.
2. Gwybod am yr asiantaethau sy'n gweithio gyda darparwyr tai i ddarparu gwasanaethau.	2.1 Nodi'r asiantaethau sy'n gweithio gyda darparwyr tai i ddarparu gwasanaethau. 2.2 Esbonio rôl asiantaethau eraill o ran darparu gwasanaethau ochr yn ochr â darparwyr tai.
3. Deall sut mae darparwyr tai yn cael eu rheoleiddio.	3.1 Nodi'r prif fframweithiau a chyrrff rheoleiddio sy'n gweithredu ym maes tai. 3.2 Esbonio rôl rheoleiddio ym maes tai.
4. Deall sut gall darparwyr tai wella'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.	4.1 Nodi ffyrdd y mae darparwyr tai yn monitro eu perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau. 4.2 Esbonio sut mae adborth a gwybodaeth am berfformiad yn cael eu defnyddio i wella gwasanaethau.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai

Lefel yr uned:	3
Gwerth credyd yr uned:	4
Cyfeirnod yr uned:	A/615/4073
Cyfeirnod CIH AO:	H3025
Statws yr uned:	Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwr o ddeddfwriaeth ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyd-destun tai.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth a sut mae'n berthnasol i faes tai.	1.1 Crynhoi deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth. 1.2 Disgrifio sut mae deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau tai.
2. Deall y berthynas rhwng amrywiaeth y gweithlu a darparu gwasanaethau.	2.1. Esbonio manteision cael gweithlu amrywiol mewn sefydliad. 2.2. Asesu sut mae hyn yn effeithio ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau.
3. Deall y dulliau mae sefydliadau tai yn eu defnyddio i fonitro ac ymateb i anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaethau.	3.1 Disgrifio sut caiff gwybodaeth am amrywiaeth defnyddwyr gwasanaethau tai ei chasglu a'i monitro. 3.2 Dadansoddi sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i deilwra gwasanaethau i ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y mae'r sefydliad yn gweithio ynddynt.

Trin data cwsmeriaid teleofal yn ddiogel

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 3
Cyfeirnod yr uned: Y/615/5103
Cyfeirnod CIH AO: H3032
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o bwysigrwydd diogelu data wrth ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid. Mae hefyd yn datblygu gwybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall deddfwriaeth diogelu data allweddol yng nghyswllt data cwsmeriaid teleofal.	1.1 Disgrifio prif ddarpariaethau ac egwyddorion deddfwriaeth diogelu data yng nghyswllt data cwsmeriaid teleofal. 1.2 Disgrifio prif ddarpariaethau ac egwyddorion deddfwriaeth diogelu data yng nghyswllt defnyddio teledu cylch cyfyng (CCTV).
2. Deall gweithdrefnau a pholisïau sefydliadol yng nghyswllt diogelwch data.	2.1 Trafod y camau mae sefydliadau yn eu cymryd i atal mynediad heb awdurdod at ddata cwsmeriaid. 2.2 Esbonio gweithdrefnau ar gyfer archifo a gwaredu cofnodion/data cwsmeriaid yn ddiogel. 2.3 Esbonio system sefydliad ar gyfer sicrhau bod ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun yn cael eu cofnodi a'u bod yn cael ymateb. 2.4 Esbonio gweithdrefnau a/neu brotocolau sefydliadol ar gyfer rhannu data gydag asiantaethau partner.
3. Deall rôl diogelu data wrth ddarparu gwasanaethau teleofal i gwsmeriaid.	3.1 Crynhoi'r risgiau posibl i ddiogelwch data cwsmeriaid. 3.2 Cyfiawnhau sefyllfaoedd lle gellid cyfiawnhau datgelu data personol. 3.3 Archwilio sut mae cyfrinachedd, preifatrwydd a thrin gwybodaeth bersonol yn sensitif yn helpu i feithrin a chynnal perthynas o ymddiriedaeth â chwsmeriaid.

Ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch ar gyfer rheoli a chynnal a chadw tai

Lefel yr uned:	3
Gwerth credyd yr uned:	5
Cyfeirnod yr uned:	F/615/4074
Cyfeirnod CIH AO:	H3026
Statws yr uned:	Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwyr o iechyd a diogelwch yn y gweithle ac mewn amgylcheddau tai. Nid yw cyflawni'r uned yn rhoi cymhwysedd llawn o ran y gofynion iechyd a diogelwch a nodir yng nghanlyniad dysgu 2. Yn y meysydd hyn, efallai y bydd angen hyfforddiant neu gymwysterau ychwanegol i fodloni gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall gofynion polisiau a deddfau iechyd a diogelwch ar gyfer rheoli a chynnal a chadw tai.	1.1 Crynhoi'r polisiau a'r deddfau iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i reoli a chynnal a chadw tai. 1.2 Nodi sefyllfaoedd lle mae Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) yn berthnasol. 1.3 Esbonio effaith deddfwriaeth iechyd a diogelwch ar unigolion 1.4 Esbonio goblygiadau diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch
2. Deall sut mae sefydliadau tai yn rheoli cydymffurfedd cylchol â rheoliadau iechyd a diogelwch.	2.1. Crynhoi'r prif ofynion iechyd a diogelwch rheoliadol y mae angen i sefydliadau tai gydymffurfio â nhw: <ul style="list-style-type: none">• Diogelwch nwy a thrydan• Olew a LPG• Diogelwch tân• Legionella ac asbestos• Peryglon cemegol a biolegol• Lifftau, lifftiau grisiau a theclynnau codi• Arall 2.2. Gwerthuso prosesau a gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer rheoli gofynion iechyd a diogelwch rheoleiddiol, cylchol. 2.3. Disgrifio eich cyfrifoldebau ei hun o ran cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch rheoleiddiol.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
3. Deall diogelwch personol ar gyfer gweithwyr tai, atgyweirio, a chynnal a chadw.	3.1. Esbonio gweithdrefnau gweithio ar eich pen eich hun ar gyfer gweithwyr tai. 3.2. Esbonio sut mae gweithio'n ddiogel mewn sefyllfaoedd sy'n peri risg gorfforol. 3.3. Crynhoi mesurau ar gyfer sicrhau bod contractwyr yn gweithio'n ddiogel.

Digartrefedd ymysg cyn-droseddwyr

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 3
Cyfeirnod yr uned: R/615/0854
Cyfeirnod CIH AO: H3010
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwr o ddigartrefedd ymysg cyn-droseddwyr, o'i effeithiau, ac o atal.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y gyfraith yng nghyswllt digartrefedd ymysg cyn-droseddwyr.	1.1 Crynhoi'r fframwaith statudol sy'n berthnasol i bobl sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd. 1.2 Nodi pa sefydliadau sydd â chyfrifoldeb statudol i gyn-droseddwyr sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd. 1.3 Esbonio beth yw cyfrifoldebau statudol y sefydliadau hynny i gyn-droseddwyr sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd.
2. Gwybod sut mae atal digartrefedd ymysg cyn-droseddwyr.	2.1 Esbonio'r gwasanaethau a'r mesurau y gall sefydliadau eu defnyddio i atal digartrefedd ymysg cyn-droseddwyr. 2.2 Crynhoi'r gwasanaethau sydd ar gael yn genedlaethol ac yn lleol i gyn-droseddwyr sy'n ddigartref. 2.3 Gwerthuso pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i atal digartrefedd ymhlith cyn-droseddwyr.
3. Deall sut gellir lleihau'r risg o aildroseddu drwy fynd i'r afael â digartrefedd.	3.1 Disgrifio'r ffactorau a allai lleihau'r risg o aildroseddu. 3.2 Esbonio'r cysylltiad rhwng digartrefedd ac aildroseddu. 3.3 Crynhoi rôl gwasanaethau tai o ran lleihau aildroseddu.

Gwasanaethau digartrefedd ac atal digartrefedd

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 4
Cyfeirnod yr uned: H/615/0809
Cyfeirnod CIH AO: H3006
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi gwybodaeth i'r dysgwr am sut gall pobl ddod yn ddigartref, y gwasanaethau sydd ar gael i'r rhai sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd, a sut gellir atal digartrefedd.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at bobl yn dod yn ddigartref.	1.1 Nodi'r ffactorau personol/unigol sy'n gallu cyfrannu at bobl yn dod yn ddigartref. 1.2 Disgrifio'r ffactorau strwythurol sy'n gallu cyfrannu at lefelau digartrefedd.
2. Deall y fframwaith statudol ac anstatudol ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd.	2.1 Crynhoi'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i bobl sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd. 2.2 Nodi rôl y llysoedd a chyfraith achosion yng nghyswllt digartrefedd. 2.3 Esbonio cyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol i gyn-droseddwyr sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd. 2.4 Esbonio cyfrifoldebau anstatudol awdurdodau lleol i gyn-droseddwyr sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd.
3. Gwybod am lety a gwasanaethau i bobl sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd.	3.1 Disgrifio pa mor addas yw'r mathau o lety sydd ar gael i bobl ddigartref. 3.2 Crynhoi'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd.
4. Deall sut gellir atal digartrefedd.	4.1 Crynhoi'r gwasanaethau a'r mesurau eraill y mae sefydliadau yn eu defnyddio i atal digartrefedd. 4.2 Egluro rôl gweithio mewn partneriaeth a diogelu o ran atal digartrefedd.

Adeiladu a chynnal a chadw tai

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 5
Cyfeirnod yr uned: J/615/4075
Cyfeirnod CIH AO: H3027
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwr o ddulliau adeiladu tai nodweddiadol a phroblemau cyffredin cynnal a chadw tai.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y mathau cyffredin o adeiladu ar gyfer y stoc dai.	1.1 Crynhoi prif nodweddion strwythurol ystod o fathau nodweddiadol o anheddau. 1.2 Cymharu'r mathau cyffredin o ddulliau adeiladu ar gyfer y stoc dai ym mhortffolio sefydliadau tai. 1.3 Crynhoi safonau'r diwydiant, gan gynnwys rhestr cyfraddau adeiladu.
2. Nodi'r gwasanaethau cyfleustodau sy'n cael eu darparu i annedd nodweddiadol.	2.1 Esbonio systemau draenio uwchben ac o dan y ddaear. 2.2 Crynhoi'r prif gyflenwadau a dosbarthiad nwy, trydan a dŵr. 2.3 Esbonio'r gofynion cyfreithiol o ran gwirio a gwasanaethu gosodiadau nwy a thrydan. 2.4 Disgrifio'r prif fathau o systemau gwresogi dŵr a gofod. 2.5 Disgrifio manteision cartrefi mwy gwyrdd i'w meddianwyr.
3. Deall diffygion cyffredin tai a'r gwaith atgyweirio.	3.1. Nodi diffygion cyffredin tai/adeiladau neu eiddo, a chynnig camau adfer. 3.2. Cynnal arolwg ar y safle ac argymhell camau adfer. 3.3. Cynnal ôl-archwiliad ac adrodd ar berfformiad.

Polisi tai

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 3
Cyfeirnod yr uned: H/615/5105
Cyfeirnod CIH AO: H3034
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw archwilio'r datblygiadau mewn polisi tai sydd wedi dylanwadu ar y farchnad dai a darpariaeth tai fforddiadwy.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Gwybod am y broses polisi mewn cyd-destun tai.	1.1 Nodi'r prif ffactorau sbarduno yng nghyswllt datblygu polisi tai. 1.2 Nodi'r cyfranogwyr allweddol yn y broses llunio polisi.
2. Deall sut mae polisi tai wedi dylanwadu ar ddatblygiad a darpariaeth tai yn y gorffennol.	2.1 Nodi'r polisiau allweddol sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad a darpariaeth tai yn y gorffennol. 2.2 Trafod effaith polisiau blaenorol ar ddatblygiad a darpariaeth tai.
3. Deall sut gallai polisiau tai cyfredol ddylanwadu ar ddatblygiad a darpariaeth tai yn y dyfodol.	3.1 Nodi polisi tai cyfredol a allai ddylanwadu ar ddatblygiad a/neu ddarpariaeth tai yn y dyfodol. 3.2 Disgrifio effaith bosib polisi tai cyfredol ar ddatblygiad a/neu ddarpariaeth tai.

Gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw tai

Lefel yr uned: 3
Gwerth credyd yr uned: 3
Cyfeirnod yr uned: L/615/1999
Cyfeirnod CIH AO: H3015
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi cyflwyniad i'r dysgwr i systemau a ddatblygwyd i ddarparu rhaglenni cynnal a chadw tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Bydd dysgwyr hefyd yn dysgu am rolau'r cleient a'r contractwr.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y dulliau o ddarparu gwasanaeth atgyweirio ymatebol.	1.1 Nodi'r mathau o waith sy'n rhan o atgyweirio ymatebol. 1.2 Esbonio'r camau allweddol mewn gwasanaeth atgyweirio ymatebol. 1.3 Gwerthuso dulliau o ddarparu gwasanaeth atgyweirio ymatebol sy'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.
2. Deall y dulliau o ddarparu rhaglenni rheoli asedau dros y tymor hir.	2.1 Crynhoi'r mathau o waith sy'n rhan o reoli asedau. 2.2 Gwerthuso dulliau o ddarparu rhaglenni rheoli asedau sy'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.
3. Deall y berthynas rhwng rolau'r cleient a'r contractwr o ran darparu gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw.	3.1. Diffinio rolau'r cleient a'r contractwr o ran darparu gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw. 3.2. Crynhoi'r ffactorau sy'n cyfrannu at berthynas effeithiol rhwng cleient a chontractwr.

Gwasanaethau cymorth tai i bobl ifanc

Lefel yr uned:	3
Gwerth credyd yr uned:	3
Cyfeirnod yr uned:	D/615/5104
Cyfeirnod CIH AO:	H3033
Statws yr uned:	Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

